# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Caerdydd**
**Neuadd y Ddinas**
**Glanfa'r Iwerydd**
**Caerdydd**
**CF10 4UW**

**Ionawr 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Caerdydd yw prifddinas Cymru. Mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol sy'n 140 cilomedr sgwâr. Mae proffil oedran y boblogaeth yn cynnwys tua 60,000 o blant (0-16 oed). Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod y boblogaeth myfyrwyr yn cynrychioli tua 10% o gyfanswm y boblogaeth. Mae hyn yn dylanwadu ar gyfran y boblogaeth rhwng 20 a 29 oed, sef tua 21%, o'i gymharu â 12% ar gyfer gweddill de ddwyrain Cymru.

Yn 2009, 67.8% oedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghaerdydd. Y gyfradd hon oedd yr wythfed uchaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Caerdydd oedd â'r gyfradd degfed uchaf o blant yn byw mewn cartrefi di-waith ymhlith awdurdodau Cymru. Yr enillion cyfartalog wythnosol yng Nghaerdydd oedd yr uchaf ond un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac mae uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Yn 2009, roedd 41.7% o'r oedolion oedran gweithio wedi ennill cymwysterau ar lefel 4 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) neu'n uwch. Roedd hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 29.6%, a dyma'r ganran uchaf ond un yng Nghymru. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau wedi disgyn yn raddol er 2001 i 11.8% yn 2008, islaw cyfartaledd Cymru, sef 14.6%.

### Cyd-destun ariannol

Asesiad Gwariant Safonol (AGS)[1] Llywodraeth Cymru i bob pen o'r boblogaeth ar gyfer Caerdydd yn 2010-2011 oedd yr isaf ond un ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi gosod ei gyllideb refeniw gyffredinol ar 100.4% o'r AGS, sydd bron yr un fath â chyfartaledd Cymru, sef 100.5%. Mewn cyferbyniad, gosodwyd ei gyllideb Addysg net ar 103.5% o'i ASDd[2] Addysg, sef y trydydd uchaf yng Nghymru ac uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 99%. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r gymhareb hon wedi aros yn gyson uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Mae'r gyllideb addysg net ar gyfer 2010-2011 gyfwerth â £4,640 i bob disgybl o'i gymharu â chyfartaledd o £4,816 ar gyfer Cymru gyfan. Dirprwyir £3,700 i bob disgybl ysgol gynradd, a dirprwyir £4,272 i bob disgybl ysgol uwchradd. Mae'r naill a'r llall ychydig bach uwchlaw cyfartaleddau Cymru.

### Strwythur

Mae gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Lles Cymdeithasol) gyfrifoldeb am y Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes (GYDGO) a'r Gwasanaethau Plant yn yr awdurdod. Mae'r awdurdod yn rhoi rhaglen drawsnewid strategol ar waith, sy'n sbarduno newidiadau i'r Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes (GYDGO). Mae'r newidiadau hyn yn canolbwyntio ar wella'r gweithio mewn partneriaeth strategol rhwng y GYDGO a'r gwasanaethau o fewn y gyfarwyddiaeth Lles Cymdeithasol. Cefnogir y prif swyddog addysg gan dri Phennaeth Cyflawniad a Phennaeth Perfformiad, Adnoddau a Gwasanaethau.

[1] AGS yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu Grant Refeniw i awdurdodau lleol.
[2] ASDd Addysg yw'r rhan honno o'r AGS sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau addysg.

Mae Caerdydd wedi sefydlu Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI), ynghyd â Chynllun Plant a Phobl Ifanc cyfredol (2008-2011). Mae'r PPPhI yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r heriau allweddol wrth wella deilliannau ar gyfer pobl ifanc trwy waith cydweithredol â ffocws a gwaith partneriaeth.

Ceir manylion am faterion o'r arolygiadau blaenorol yn y cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad sy'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno trwy'r PPPhI. Mae'r chwe amcan allweddol yn y cynllun ôl-arolygiad yn cysylltu â'r strategaethau a'r targedau trosfwaol cysylltiedig yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod a Chynllun Busnes Ysgolion a Dysgu Gydol Oes 2008-11.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Digonol**

Mae perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd bod yr awdurdod:

- wedi bodloni neu ragori ar holl ddisgwyliadau meincnod Llywodraeth Cymru am y 4 blynedd diwethaf;
- wedi gwneud trefniadau effeithiol i gefnogi a herio ysgolion;
- wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu a rhesymoli darparu lleoedd ysgol.

Fodd bynnag:

- mae’r cynnydd yn rhy araf mewn meysydd fel presenoldeb, gwaharddiadau, deilliannau cyfnod allweddol 4, ac ar gyfer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH); ac
- nid yw’r arweinyddiaeth strategol o ran y cydweithio rhwng yr awdurdod a’r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ddigon effeithiol.

**Gallu i wella: Digonol**

Mae’r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod aelodau etholedig wedi dangos arweinyddiaeth gref a chefnogaeth gyson ar gyfer gwasanaethau addysg, ac mae’r prif swyddog addysg a phenaethiaid gwasanaeth yn darparu arweinyddiaeth dda i’r gwasanaeth ysgolion; ac
- mae cynlluniau strategol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae cysylltiadau clir yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o gynlluniau ar draws yr awdurdod.

Fodd bynnag:

- nid yw’r hunanarfarnu a’r gwella yn ddigon cyson, trylwyr neu gadarn; ac
- nid oedd prosesau hunanarfarnu yn rhoi tystiolaeth o’r modd y mae gwaith y PPPhI yn cyfrannu at wella’r deilliannau ar gyfer pob dysgwr.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i Ddinas a Sir Caerdydd:

A1 wella arweinyddiaeth strategol y cydweithio rhwng yr awdurdod a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc;

A2 gwella effeithiolrwydd y cynllunio partneriaeth ar gyfer deilliannau mewn meysydd blaenoriaeth;

A3 gwella'r craffu ar weithio mewn partneriaeth;

A4 parhau i godi safonau yng nghyfnod allweddol 4, gwella presenoldeb, lleihau gwaharddiadau a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant;

A5 gwella prosesau rheoli perfformiad i sicrhau dull cyson wrth gyflawni amcanion; a

A6 gwella'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth ar gyfer holl rieni'r dysgwyr sydd angen asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Sir Caerdydd yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) o dderbyn yr adroddiad. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn dod o dan y categori gwaith dilynol a bydd angen ymweliad monitro gan Estyn arno. Bydd dyddiad a ffocws yr ymweliad monitro hwn yn cael ei bennu gan Estyn maes o law.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol, sef:

1. astudiaeth achos arfer dda;
2. monitro gan yr arolygydd cyswllt;
3. ymweliad monitro gan Estyn;
4. gwelliant sylweddol; a
5. mesurau arbennig.

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio ar ôl ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall o fewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu cynnwys yn y Calendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Da**

**Safonau: Da**

Mae safonau wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol, ond nid yw'r gyfradd wella yn gyson ym mhob maes. Mae perfformiad yr awdurdod yn erbyn dangosyddion cyrhaeddiad ym mhob cyfnod allweddol yn gwella, gan fod yr un fath â'r lefelau disgwyliedig neu'n uwch na nhw. Mae'r duedd ar i fyny yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC – y perfformiad disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) ym mhob cyfnod allweddol dros y tair blynedd diwethaf yn cyd-fynd â'r tueddiadau ar gyfer Cymru. Yng nghyfnod allweddol 1, mae perfformiad yn arbennig o dda.

Mae perfformiad yn erbyn meincnodau ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 wedi rhagori ar ddisgwyliadau am y tair blynedd diwethaf. Mae'r gyfradd wella yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi rhagori ar y gyfradd wella ledled Cymru. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, ac yn llawer llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn gwella'n gyson, ond mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae perfformiad dysgwyr ethnig lleiafrifol yn gwella ac mae'r bwlch mewn perfformiad rhyngddyn nhw a dysgwyr croenwyn yn y DU yn mynd yn llai. Mae canran y dysgwyr ethnig lleiafrifol sy'n cyflawni trothwy lefel 2 (cyfwerth â 5 cymhwyster TGAU, gradd A* i C) wedi cynyddu ac mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhyngddyn nhw a dysgwyr croenwyn yn y DU wedi lleihau'n sylweddol. Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch mewn TGAU a Safon UG/A2 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn datblygu medrau Cymraeg ail iaith. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg mamiaith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae canran y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig yn gostwng, ond yn aros yn gymharol uchel o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.

**Lles: Digonol**

Mae safonau lles mewn agweddau fel iechyd, bwyta'n iach, addysg gorfforol a gwrando ar ddysgwyr yn dda. Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn cynghorau ysgol ac yn y Cyngor Ieuenctid. Mae effaith gwrando ar safbwyntiau

dysgwyr yn dda. Er enghraifft, mae adborth gan ddysgwyr i'r gwasanaeth arlwyo ysgolion wedi cael dylanwad cadarnhaol ar benderfyniadau arlwyo ar gyfer ysgolion.

Mae gan yr awdurdod ystod eang o fentrau a strategaethau da sy'n hyrwyddo cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys y rhaglen addysg gorfforol a chwaraeon ysgolion (AGChY), y rhaglen Blas am Oes a'r cynllun ysgolion iach. Caiff addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh) ei hyrwyddo'n dda. Fodd bynnag, mae effaith ARhPh ar wybodaeth ac ymddygiad dysgwyr eto i gael ei harfarnu gan yr awdurdod.

Mae ymyriadau cwnsela llwyddiannus wedi galluogi dysgwyr sydd wedi cael eu cyfeirio gan ysgolion i allu manteisio'n gyflym ar gymorth pan fydd ei angen. Mae'r cymorth hwn yn helpu codi ymwybyddiaeth am yr angen i ddysgwyr ganolbwyntio ar wella eu lles emosiynol a'u cyfranogiad mewn dysgu.

Caiff y rhaglen AGChY ei hymgorffori'n dda bron ym mhob un o ysgolion Caerdydd. Mae'r awdurdod yn cynnig ystod dda o weithgareddau corfforol mewn lleoliadau addysg, hamdden a chymunedol. Mae cyfranogiad bechgyn a merched mewn gweithgareddau corfforol yn cynyddu.

Mae cyfraddau presenoldeb yn gwella mewn ysgolion uwchradd ond maent yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru gyfan. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn agos at gyfartaledd Cymru gyfan. Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol wedi lleihau'n sylweddol mewn ysgolion uwchradd. Mae hefyd yn isel mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig.

Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy yn lleihau mewn ysgolion uwchradd, ond mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai mewn ysgolion yn parhau i fod yn uchel. Ar hyn o bryd, mae cyfradd y bobl ifanc sy'n parhau ag addysg ar ôl Blwyddyn 11 yn isel ac mae cyfradd y bobl ifanc NACH ar ôl Blwyddyn 11 yn uchel o'i gymharu â gweddill Cymru.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Digonol

### Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Da

Mae'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn dda. Mae'r awdurdod wedi gwneud trefniadau effeithiol i gefnogi a herio ysgolion. Mae wedi cryfhau prosesau gwella ysgolion yn dda ers yr arolygiad diwethaf, ac mae'r camau hyn yn helpu ysgogi gwelliant. Mae cydweithio cynyddol ar draws gwasanaethau addysg yn helpu gwella cyflawniad pob un o'r dysgwyr.

Mae swyddogion cyswllt yn gweithio'n agos gyda'u hysgolion ac yn darparu arfarniadau blynyddol manwl a chynhwysfawr. Mae'r arfarniadau hyn yn nodi meysydd i'w gwella yn glir, ac ar y cyd â'r adolygiadau canol cylch o gynnydd ysgolion, maent yn gryfderau penodol yng ngwaith yr awdurdod gydag ysgolion.

Mae'r awdurdod wedi gwella ei Gytundebau Partneriaeth gydag ysgolion. Mae'r cytundebau yn amlinellu meini prawf a phrosesau clir sy'n helpu nodi a chefnogi

ysgolion sy'n achosi pryder. Mae hyn yn golygu bod materion yn cael eu nodi'n gynnar a bod cymorth ychwanegol yn cael ei gyfeirio lle mae ei angen fwyaf. O ganlyniad, mae cynnydd sylweddol a phriodol wedi bod yn nifer yr ysgolion y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt, a gwelliant cyson cyffredinol mewn safonau.

Mae gwasanaethau addysg yn mynd ati'n briodol i ganolbwyntio mentrau i godi safonau mewn meysydd blaenoriaeth, fel llythrennedd. Mae'r ymyriadau hyn yn gwella llythrennedd swyddogaethol dysgwyr mewn ysgolion cynradd targedig yn llwyddiannus. Caiff ymyriadau i godi safonau mewn mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effaith gadarnhaol hefyd. Rhoddir cymorth da i adrannau pwnc uwchradd.

Mae mecanweithiau llwyddiannus ar gyfer gwella arweinyddiaeth a rheolaeth yn cyfrannu'n dda at wella ansawdd a safonau mewn ysgolion. Mae'r mecanweithiau hyn yn cynnwys cymorth a hyfforddiant ar gyfer rheolwyr canol ac uwch reolwyr i gryfhau dadansoddi data, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Digonol**

Mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn ddigonol. Mae'r awdurdod yn bodloni'r holl ofynion statudol ynglŷn â darparu cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Caerdydd sydd â'r nifer fwyaf o ddysgwyr â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yng Nghymru, ac mae'r nifer hon wedi parhau'n sefydlog dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r awdurdod wedi cyflwyno strategaethau newydd i leihau nifer y datganiadau, fel dirprwyo mwy o gyllid i ysgolion. Er enghraifft, mae hyn yn galluogi pob ysgol uwchradd i gael un athro sydd â gwybodaeth arbenigol. Mae'n rhy gynnar i'r awdurdod farnu effaith y dirprwyo cyllid hwn. Fodd bynnag, mae'r ailstrwythuro diweddar mewn gwasanaethau addysg yn rhoi ffocws cryf ar ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan y gwasanaeth weledigaeth glir ar gyfer gwella, ac mae'r awdurdod yn adeiladu ar allu ysgolion i fodloni anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr.

Mae ysgolion a gwasanaethau cymorth yn olrhain a monitro cynnydd dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon cyson i'w galluogi i arfarnu anghenion pob grŵp o ddysgwyr a chynllunio'r ddarpariaeth yn fwy strategol.

Mae'r awdurdod yn datblygu ffyrdd defnyddiol o ymgynghori â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a gwrando arnynt. Mae'r Prosiect Cysylltiadau Cartref-Ysgol hefyd yn helpu gwella'r ymgysylltu â rhieni mewn prosesau adborth tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau i gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig yn ddigon effeithiol.

Mae staff yn defnyddio eu gwybodaeth arbenigol i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu bodloni mewn lleoliadau ysgol y tu allan i'r sir. Mae panel Y Tu Allan i'r Ardal ar gyfer pob disgybl sy'n cael ei leoli y tu allan i'r sir wedi cael ei roi ar waith. Mae'r awdurdod wedi penodi gweithiwr trosglwyddo y tu allan i'r sir yn ddiweddar i ddatblygu dull graddol ar gyfer nodi a chefnogi anghenion dysgwyr.

Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn monitro cynnydd dysgwyr yn y lleoliadau hyn yn ddigon da. Mae hyn yn golygu nad yw'n gwybod pa mor dda y mae pob dysgwr yn gwneud cynnydd, nid yw'n cynllunio ar gyfer gweithredu priodol, ac nid yw staff yn gwybod a yw'r lleoliadau yn cynnig y gwerth gorau am arian.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol**

Mae cynnydd yn y maes hwn yn ddigonol. Mae gwasanaethau addysg wedi cyflwyno nifer o fentrau da, targedig sy'n rhoi sylfaen gadarnhaol ar gyfer gwelliannau pellach. Nod y strategaeth newydd ar gyfer rheoli presenoldeb yw darparu dull mwy cyson ar gyfer materion ymddygiad a gwahardd. Bwriad y strategaeth hon yw cynnig cyfle i ysgolion allu manteisio ar ystod ehangach o ddarpariaeth amgen yn hytrach na gwahardd dysgwyr. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu llwyddiant y strategaeth hon.

Mae gwasanaethau addysg wedi dweud wrth y Pwyllgor Craffu bod rhai ysgolion yn gwahardd disgyblion heb adrodd am hyn. Mae hyn yn golygu bod gwir nifer y diwrnodau a gollir trwy waharddiadau yn debygol o fod ychydig yn uwch na'r hyn a adroddwyd.

Mae ysgolion yn mynd ati'n briodol i gofnodi achosion hiliol ac mae ganddynt bolisïau gwrth-fwlio wedi'u hysgrifennu'n dda, ond nid oes system effeithiol gan yr awdurdod i sicrhau bod yr adrodd yn gyson ar draws pob ysgol. Nid yw effeithiolrwydd y polisïau a'r gweithdrefnau hyn a'u heffaith yn cael eu monitro'n ddigon cyson nac yn ddigon trylwyr.

Mae'r Strategaeth Rianta Gorfforaethol yn helpu gwella perfformiad y gwasanaethau ar gyfer plant y gofelir amdanynt, ac mae cyrhaeddiad y disgyblion hynny yn gwella. Mae Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yr awdurdod yn rhoi cymorth da i ddysgwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith.

Mae gan wasanaeth ieuenctid yr awdurdod ystod eang o brosiectau a gweithgareddau sy'n bodloni anghenion pobl ifanc yn dda. Mae menter Cadw mewn Cysylltiad yn rhoi dadansoddiadau defnyddiol o ddysgwyr sy'n cael cymorth. Mae'r Strategaeth Ymgysylltu ag Ieuenctid newydd yn darparu ffocws gwell ar gyfer cefnogi pobl ifanc NACH.

Caiff staff mewn ysgolion ystod dda o hyfforddiant a chyngor gan yr awdurdod lleol am ddiogelu. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant hwn ar gael i bob oedolyn sy'n cael cyswllt dyddiol â dysgwyr eto, fel gyrwyr tacsi sy'n darparu cludiant ysgol. Mae gan yr awdurdod lleol bolisi a gweithdrefnau clir ar gyfer diogelu, ac fe gaiff pob un o'r staff addysg wiriadau priodol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT).

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da mewn datblygu a rhesymoli'r ddarpariaeth lleoedd ysgol ers yr arolygiad diwethaf. Mae ganddo wybodaeth dda a chyfoes am gynhwysedd pob ysgol ac mae'n defnyddio gwybodaeth gywir ar gyfer rhagweld gofynion y dyfodol ym mhob sector. Mae'r awdurdod yn gweithio'n agosach â'r GIG erbyn hyn hefyd i gasglu data ychwanegol ar enedigaethau a fydd

yn llywio rhagweld angen ymhellach.
Mae gan yr awdurdod wybodaeth gywir a chyfoes ynglŷn â chyflwr, digonolrwydd ac addasrwydd pob adeilad ysgol. Mae'r cynllun rheoli asedau yn cynnwys amcanion wedi'u datgan yn glir. Mae swyddogion yn rheoli prosiectau adeiladu addysg yn dda fel eu bod yn cael eu rhedeg yn unol â'r disgwyl ac o fewn y gyllideb.

Mae gweithredu'r cynigion ar drefniadaeth ysgolion, a oedd yn cael eu cynllunio adeg yr arolygiad diwethaf, yn mynd rhagddo'n dda. Mae gwleidyddion ac uwch swyddogion, gyda chymorth penaethiaid ac undebau llafur, wedi bwrw ymlaen â phenderfyniadau anodd i gyflwyno newid sefydliadol ar gyfer gwella. Mae hyn wedi arwain at uno a chau ysgolion, ac adeiladu ysgolion newydd. Mae'r broses eto i gael ei chwblhau.

Mae'r wybodaeth i rieni am dderbyn i ysgolion yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer. Fodd bynnag, mae'r broses apelio weithiau'n rhy araf.

Mae'r trefniadau cydweithredol newydd ar draws nifer o bartneriaethau ar gyfer dysgwyr ôl-14 yn rhoi sylfaen well na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd i bobl ifanc allu manteisio ar lwybrau dysgu sy'n bodloni eu hanghenion unigol.

Mae'r awdurdod yn darparu digon o leoedd yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n monitro lleoedd a ariennir yn dda mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir fel ei gilydd. Mae'r awdurdod yn darparu ystod dda o hyfforddiant ar gyfer y lleoliadau hyn a defnyddir arfarniad o'r rhain yn effeithiol i lywio anghenion hyfforddi yn y dyfodol.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Digonol**

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae aelodau etholedig wedi dangos arweinyddiaeth gref a chefnogaeth gyson ar gyfer gwasanaethau addysg. Mae'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn datblygu ei rôl yn dda i ganolbwyntio mwy ar fonitro deilliannau dysgwyr. Mae wedi herio perfformiad ar draws ystod o feysydd. Fodd bynnag, nid yw'n mynd ati'n gyson i archwilio gwasanaethau ehangach y tu allan i'r gwasanaeth statudol.

Caiff aelodau etholedig ac uwch swyddogion adroddiadau rheolaidd, defnyddiol i'w helpu i wybod pa mor dda y mae gwasanaethau ac ysgolion yn perfformio. Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn cyflwyno trosolwg strategol o'r ddarpariaeth rhwng yr awdurdod a'r PPPhI.

Mae arweinyddiaeth y gwasanaethau addysg gan swyddogion, yn cynnwys y prif swyddog addysg a phenaethiaid gwasanaethau, yn dda. Mae rolau a chyfrifoldebau yn canolbwyntio'n briodol ar anghenion dysgwyr. Mae'r tîm arweinyddiaeth newydd ar gyfer addysg yn cael cefnogaeth dda gan y Prif Weithredwr ac aelodau etholedig.

Mae cynlluniau strategol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae cysylltiadau clir rhwng y rhan fwyaf o gynlluniau ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u cysylltu'n ddigon da â gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach. Mae'r cynlluniau strategol a gweithredol yn dangos ymrwymiad cryf yr awdurdod i addysg. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau â thargedau a

gweithgareddau staff unigol ar draws y gwasanaeth wedi'u cysylltu'n ddigon clir â'r cynlluniau a'r blaenoriaethau bob amser. Cydnabuwyd hyn gan yr awdurdod.

Mae'r Prif Weithredwr a benodwyd yn ddiweddar yn cefnogi gweledigaeth glir iawn yr awdurdod o fanteision addysg i unigolion a chymunedau. Mae wedi rhoi systemau rheoli perfformiad gwell ar waith yn gyflym iawn i ddatblygu a gwella gwasanaethau, a dwyn staff, yn cynnwys penaethiaid, i gyfrif amdanynt. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu'r deilliannau.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid aeth yr awdurdod i'r afael â phob un o'r meysydd y disgwylir iddo fynd i'r afael â nhw yn ei hunanarfarniad ar gyfer yr arolygiad hwn. Mae hyn yn golygu nad yw'r awdurdod lleol wedi dangos pa mor dda y mae'n cyflawni ei rôl mewn datblygu blaenoriaethau a rhaglenni ar y cyd ar gyfer plant a phobl ifanc Caerdydd. Mae hwn yn faes pwysig i'w wella.

Oherwydd y diffyg hwn, canolbwyntiodd yr arolygiad yn bennaf ar y cynnydd y mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol wedi'i wneud ers arolygiadau blaenorol.

Yn y gwasanaethau addysg, mae gwella ansawdd yn ddigonol. Mae safonau yn gwella, ond mae'r cynnydd yn rhy araf mewn meysydd fel presenoldeb, gwaharddiadau, deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 a dysgwyr NACH. Caiff y pwyllgor craffu a'r bwrdd PPPhI adroddiadau cynnydd rheolaidd. Mae'r adroddiad blynyddol ar berfformiad ysgolion yn enghraifft dda o hyn. Fodd bynnag, nid yw pob adroddiad yn ddigon arfarnol a dadansoddol ac nid ydynt ychwaith yn amrywiol o ran eu cwmpas. Nid ydynt yn ddigon cysylltiedig i alluogi arweinwyr a rheolwyr i ddarparu lefelau effeithiol o her i bob asiantaeth ac adran sy'n cyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc i ysgogi gwelliannau.

Caiff swyddogion ddata defnyddiol sy'n rhoi trosolwg da o gynnydd, ac fe'i defnyddir yn dda i fonitro perfformiad yn erbyn dangosyddion a meincnodau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes digon o ddadansoddiad o'r data i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliannau mesuradwy. Mae'r awdurdod yn rhoi model yn seiliedig ar ddeilliannau ar waith i ddangos effaith y ddarpariaeth ar ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'r system hon yn rhy newydd i ddangos sut bydd yn gwella'r cynllunio ar gyfer y gwelliannau sydd eu hangen.

Rheolir perfformiad yn rheolaidd ar draws yr awdurdod ond nid yw bob amser yn ddigon effeithiol wrth sicrhau gwelliannau. Nid yw gosod targedau ac adolygu cynnydd yn erbyn targedau yn ddigon trylwyr.

Mae'r awdurdod yn defnyddio ei bwerau statudol yn briodol i gefnogi gwelliannau. Mae'n dangos ymrwymiad cryf i gymunedau dysgu proffesiynol ac mae'n gweithio'n dda yng nghonsortiwm rhanbarthol De Ddwyrain Cymru ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

At ei gilydd, mae'r gweithio mewn partneriaeth yn ddigonol. Ar y lefel strategol uchaf,

mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) yng Nghaerdydd wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol i ddiwygio trefniadau cynllunio a phartneriaeth, ac mae'r awdurdod wedi cyfrannu'n dda at hyn. Bwriad y Strategaeth Partneriaeth Integredig newydd yw alinio'r holl gynlluniau strategol trosfwaol mewn un cynllun gyda set gyffredin o amcanion lefel uchel. Mae'r BGLl yn ymgynghori ar y fenter hon ar hyn o bryd.

Mae trefniadau partneriaeth priodol i fynd i'r afael â'r gofynion statudol ar gyfer gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i gydweithio ag eraill. Mae'r rhain yn cynnwys cyfiawnder ieuenctid, darpariaeth y blynyddoedd cynnar, iechyd a lles pobl ifanc, y rhwydwaith llwybrau dysgu 14-19, a'r gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Nid yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn effeithiol fel y sbardun allweddol i gyflawni gwelliannau mewn gwasanaethau a deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae'r perthnasoedd a'r cyfathrebu rhwng yr awdurdod lleol a'i benaethiaid yn dda. Mae'r gweithio mewn partneriaeth yn dda o fewn y Rhwydwaith 14-19, gyda chyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer gwella'r cyrsiau a'r cyfleoedd dysgu yn y gwaith sydd ar gael.

Mae cynnydd yn rhy araf mewn datblygu gwasanaethau mwy integredig trwy gydweithio â phartneriaid mewn gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol i blant a gwasanaethau iechyd. Er enghraifft, caiff disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig preswyl annibynnol adolygiadau rheolaidd o'u trefniadau gofal, ond mewn rhai achosion, unwaith y flwyddyn yn unig yr ystyrir eu hanghenion lleoli addysgol, trwy'r adolygiad blynyddol o'r datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid yw'r trefniadau ar wahân hyn yn effeithlon ac nid ydynt yn rhoi golwg gyfannol i'r awdurdod o gynnydd pob disgybl.

Mae Consortiwm rhanbarthol De Ddwyrain Cymru yn archwilio ffyrdd radical o integreiddio a gwella gwasanaethau addysg ar draws rhanbarth eang, ond mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu o hyd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae ansawdd rheoli adnoddau ar gyfer gwasanaethau ar y cyd yn ddigonol.

Caiff adnoddau ariannol ar gyfer addysg eu dyrannu'n dda ac maent yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a roddir i hyn gan y Cyngor.

Mae gwasanaethau addysg wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yng nghyllideb gyffredinol y Cyngor yn golygu bod yn rhaid i'r gwasanaeth wneud arbedion effeithlonrwydd. Ei strategaeth yw canolbwyntio ar feysydd a fydd yn cael yr effaith leiaf ar ddysgwyr, ac mae'r awdurdod wedi diogelu cyllidebau dirprwyedig ysgolion rhag toriadau ariannol.

Mae'r gwasanaeth addysg yn ail-ffurfweddu agweddau ar ei swyddogaethau i sicrhau deilliannau gwell a chysylltu adnoddau yn well â blaenoriaethau. Mae'r ail-ffurfweddu hwn yn rhan o'r ailstrwythuro adrannol graddol o fewn yr awdurdod. Bydd gwaith datblygu consortia De Ddwyrain Cymru yn llywio'r ail-ffurfweddu hwn ymhellach.

Nid oes gan yr awdurdod drosolwg cyflawn o ba mor effeithiol y caiff yr holl adnoddau ar gyfer gweithgareddau partneriaeth eu rheoli ar draws addysg a'r PPPhI. Nid yw'n gwybod a yw pob un o'i wasanaethau yn cyflawni gwerth da am arian. Mae hyn yn golygu nad yw'n gwybod pa mor llwyddiannus y mae pob partner yn cyfrannu at gysylltu adnoddau â blaenoriaethau yn well. Mae mwy o waith i'w wneud o hyd i ddangos bod defnyddio adnoddau yn cael yr effaith orau posibl ar ddeilliannau neu ddarpariaeth.

Mae'r awdurdod yn rheoli cyllideb y gwasanaethau addysg yn dda. Mae'r cyswllt rhwng cynllunio ariannol, penderfyniadau gwariant a chynllunio gwelliant yn datblygu'n dda. Mae'r Cyngor wedi neilltuo cyllid sylweddol ar gyfer y cynllun moderneiddio ysgolion, gan gynnwys ei gais Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae wedi defnyddio arbedion o'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig i godi cyfalaf ychwanegol ar gyfer adeiladau ysgol.

Mae'r cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth i ysgolion mewn fformat cyson erbyn hyn. Maent yn rhoi eglurder am raddau, cost ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio arolygon boddhad cwsmeriaid i adolygu perfformiad ei wasanaethau rheoli strategol.

Mae penderfyniadau ariannu yn arwain at ddeilliannau da, fel perfformiad cynaliadwy a gwell yn erbyn llawer o'r dangosyddion addysg. Mae gan yr awdurdod gynlluniau datblygedig ar waith i ddyrannu adnoddau i feysydd blaenoriaeth fel anghenion addysgol arbennig a phresenoldeb.

Mae'r gwasanaethau addysg ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jane Taylor AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins AEM | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake AEM | Arolygydd Tîm |
| Mike Munting AEM | Arolygydd Tîm |
| Pauline Preston AY | Arolygydd Tîm |
| Maldwyn Pryse AEM | Arolygydd Tîm |
| Angharad Reed AEM | Arolygydd Tîm |
| John Thomas AEM | Arolygydd Tîm |
| Louise Fleet | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Dilwyn Price | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robert Hopkins | Enwebai |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).